Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Cefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf**

**Lleoliad:** **Gweithio Ystwyth / Canolfan Gwasanaeth Plant Integredig Blaenau**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant**

**Cyfeirnod:** **BG13952**

**Cyflog:** **Gradd 6 (£32,115 - £36,124 y flwyddyn)**

**Oriau:** **37 yr wythnos**

**Contract:** **Cyfnod Sefydlog tan 31.03.2026**

**Crynodeb Swydd**

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dymuno recriwtio Gweithiwr Cefnogaeth profiadol ac ymroddedig fydd yn gyfrifol am adnabod ac asesu angen, cyflwyno ymyriadau ac ymgysylltu teuluoedd agored i niwed o fewn Blaenau Gwent.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydlynu a chyflwyno pecynnau ymyriad cynnar pwrpasol o gefnogaeth i alluogi teuluoedd i ddod yn hyderus, cefnogol, cydnerth a diogel.

**Hysbyseb Lawn**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant yn dymuno recriwtio swyddog aml-sgil i weithio gyda theuluoedd sydd angen cefnogaeth. Byddwch yn cyflwyno rhaglen cefnogi rhianta gynhwysfawr i ddiwallu anghenion unigol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol, cynnal asiadau teulu a chadeirio cyfarfodydd i ddatblygu Cynlluniau Cefnogi Teuluoedd.

Byddwch yn gallu cyfathrebu'n effeithlon gyda phlant a phobl ifanc, yn hyblyg yn eich oriau gwaith i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd a gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r radd a'r swydd.

Mae angen cymhwyster proffesiynol perthnasol Lefel 3 neu uwch mewn Gofal Cymdeithasol a Lefel 1 a 2 mewn Diogelu ar gyfer y swydd, ynghyd â phrofiad amlwg o weithio gyda phlant mewn gosodiad cymunedol.

Mae profiad o weithio gydag asiantaethau eraill, cynnal asesiadau a chyflwyno ymyriadau, gyda dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a gwybodaeth waith gadarn o ddeddfwriaeth, arweiniad a safonau'n gysylltiedig â gwasanaethau cefnogi plant yn hanfodol.

**Mae angen cael mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.**

**Cynhelir sgrinio trwyadl cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.**

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau** **20.02.2025**

**Dyddiad Cyfweliadau** **27.02.2025**